

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd

Dyddiad:
Dydd Iau, 15 Mawrth 2012

Amser:
09:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gareth Williams
Clerc y Pwyllgor
029-20898120/029-20898120
CELG.committee@wales.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Peter Black a Rhodri Glyn Thomas, o gofio eu swyddogaethau ar Gomisiwn y Cynulliad.

2. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol: Sesiwn Dystiolaeth Cyfnod 1 – Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

(Tudalennau 1 – 12)

Papur 1:

Dr Diarmait Mac Giolla Chriost, yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio
Dr Simon Brooks, yr Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio

3. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Sesiwn Dystiolaeth Cyfnod 1 – Grwp Swyddogion Iaith (Tudalennau 13 – 22)

Papur 2:

David Thomas, Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg), Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cath Baldwin, Swyddog Iaith, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Ffion Gruffudd, Swyddog Iaith, Cyngor Dinas a Sir Caerdydd

4. Sesiwn Breifat: Ystyried Adroddiad y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i Ddarparu Tai Fforddiadwy

Gwahoddir y Pwyllgor i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 4 o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi):

Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

5. Papurau i'w nodi (Tudalennau 23 – 24)

CELG(4)-08-12 : Papur 3 (Tudalennau 25 – 26)

Gohebiaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus.

CELG(4)-08-12 : Papur 4 (Tudalennau 27 – 50)

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Y goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus – adroddiad ar y dystiolaeth

Papur 5 (Tudalennau 51 – 52)

Gohebiaeth ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

Eitem 2

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swydddogol)

Papur 1: Uned Ymchwil Iaith, Polisi a Chynllunio, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd

1.0 Cyflwyniad a Materion Rhagarweiniol

1.1 Mae'r papur hwn yn ymdrin â'r canlynol wrth ymateb i Fil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swydddogol) a'r Cynllun Ieithoedd Swydddogol drafft. Disgrifir y rhain fel 'y Bil' ac 'y Cynllun' o hyn allan yn y papur hwn.

1.2 Rydym yn deall taw bwriad y Bil a'r Cynllun yw gosod dyletswyddau Cynulliad Cymru parthed gwasanaethau dwyieithog ar 'sail statudol gadarn' er mwyn 'cynyddu hyder y cyhoedd yn ymrwymiad y Cynulliad i wasanaethau dwyieithog' (10.9, Memorandwm Esboniadol).

1.3 Mae'r papur yn trin agweddau ar y Bil yn y lle cyntaf (2.0), ac yn ail agweddau ar y Cynllun (3.0).

1.4 Hoffem nodi rhai materion rhagarweiniol ynghylch atebolrwydd.

1.5 Nodir yn y Cynllun nad yw Comisiwn y Cynulliad yn ddarostyngedig i drefniadau cyfreithiol newydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 oherwydd y 'sefyllfa gyfansoddiadol arbennig yng Nghymru a'r egwyddor gyfansoddiadol sylfaenol y dylai Gweinidogion Cymru fod yn atebol i'r Cynulliad yn hytrach na'r gwrthwyneb' (paragraff 16, y Cynllun). Nodir yn y Memorandwm Esboniadol bod 'y darpariaethau hyn [y Bil] yn ei gwneud yn glir y bydd Comisiwn y Cynulliad yn atebol yn uniongyrchol i'r Cynulliad Cenedlaethol [...] yn hytrach nag i Gomisiynydd y Gymraeg a Gweinidogion Cymru fel yn achos cyrff cyhoeddus y gosodir safonau arnynt o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011' (12.5, Memorandwm Esboniadol).

1.6 O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Gweinidogion Cymru wedi'u enwi fel 'person / categori' o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Atodlen 6) ac felly mae Gweinidogion Cymru yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch safonau a'r gwasanaethau sydd dan eu gofal hwy. Yn yr un modd mae Cynllun Iaith Gymraeg (2011-

2016) Llywodraeth Cymru yn ddarostyngedig i Gomisiynydd y Gymraeg (Cynllun Iaith Gymraeg (2011-2016) Llywodraeth Cymru, tud. 1). Caiff Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ei ddisodli gan safonau yn y pen draw. Yn yr un modd hefyd mae 'Gweinidogion y Goron', 'Adrannau'r Llywodraeth' a 'Phersonau sy'n arfer, ar ran y Goron, swyddogaethau a roddir iddo gan neu o dan Ddeddf neu Fesur' wedi'u enwi fel 'person / categori' o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

1.9 Gan nad yw Comisiwn y Cynulliad wedi'i enwi fel 'person / categori' o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, nid yw Comisiwn y Cynulliad yn atebol i Gomisiynydd y Gymraeg parthed ei Gynllun Iaith na safonau. Yn hytrach, mae Comisiwn y Cynulliad yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er mwyn hyder y cyhoedd yn ymrwymiad Comisiwn y Cynulliad i wasanaethau dwyieithog mae'n rhaid i drefniadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod yn gydnerth ac eglur. Er mwyn cryfhau'r trefniadau ar fater atebolrwydd Comisiwn y Cynulliad ynghylch y Cynllun, byddai'n dda o beth pe bai modd nodi'r union fecanwaith (e.e. is-bwyllgor / pwyllgor arbenigol) y bydd yn rhaid i Gomisiwn y Cynulliad ei ddefnyddio ar gyfer adrodd ar weithredu'r Cynllun. Hefyd, dylid nodi'n glir ym mha ffyrdd y gall y cyhoedd, rhan-ddeiliaid eraill ac eraill â diddordeb gyfrannu at y broses hon.

2.0 Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)

2.1 Bwriad y Bil yw diwygio adran 35 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel a ganlyn:

Yn lle is-adran (1), rhodder -

(1) The official languages of the National Assembly are English and Welsh;

(1A) The official languages must, in the conduct of National Assembly proceedings, be treated on a basis of equality;

(1B) Either official language may be used by any person when participating in National Assembly proceedings;

(1C) Paragraph 8 of Schedule 2 makes provision about how the Assembly Commission must enable effect to be given to subsections (1), (1A) and (1B).

2.2 Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi (11.2) i adran 1 newydd gynnwys 'datganiad clir, syml mai Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd swyddogol y Cynulliad

Cenedlaethol' a bod hyn yn adlewyrchu'r 'ddeddfwriaeth a gaiff ei defnyddio i lywodraethu deddfwreydd dwyieithog erall gan roi fel enghraifft 'New Brunswick Official Languages Act 2002.' Noder hefyd Adran 6 y ddeddf hon sef 'English and French are the official languages of the Legislature'. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio (11.3) at newid arfaethedig (is-adran 1A) ynghylch adran 35 (1) Deddf 2006 fel bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin 'ar y sail eu bod yn gyfartal' a bod hyn yn 'adlewyrchu newid cymesur a wnaed gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.' Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio (11.4) at newid arfaethedig (is-adran 1B) fydd yn nodi'r hawl i ddefnyddio'r ddwy iaith yn nhrefodion y Cynulliad yn glir ar wyneb y ddeddfwriaeth lywodraethu.

2.3 Mae sawl mater dylid ei ystyried yn y cyd-destun hwn, a hynny mewn perthynas â'r model rhyngwladol sef New Brunswick. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod adran 1 o'r Bil yn 'adlewyrchu' Deddf Ieithoedd Swyddogol (New Brunswick) 2002. Os felly, mae'r adlewyrchiad yn un anghyflawn. Mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y Bil a Deddf Ieithoedd Swyddogol (New Brunswick) 2002 o safbwynt statws yr ieithoedd dan sylw, hawliau sariadwyr a ffyrdd o weithredu.

2.4 Er enghraifft, mae Deddf Ieithoedd Swyddogol (New Brunswick) 2002 yn nodi bod gan Ffrangeg a Saesneg, fel ieithoedd swyddogol fel mater o ffaith cyfansoddiadol, 'equality of status and equal rights and privileges as to their use in all institutions of the Legislature and Government of New Brunswick.' Â'r ddeddf yn ei blaen i nodi yn fanwl arwyddocâd ymarferol hyn oll, gan gynnwys defnydd o'r ddwy iaith yn y ddeddfwrfa, er enghraifft:

6 *English and French are the official languages of the Legislature and everyone has the right to use either language in any debate and other proceeding of the Legislative Assembly or its committees;*

7 *Simultaneous interpretation of the debates and other proceedings of the Legislative Assembly shall be made available by the Legislature;*

8 *The records, journals and reports of the Legislative Assembly and its committees shall be printed and published in English and French and both language versions are equally authoritative.*

2.5 Mae Deddf Ieithoedd Swyddogol (New Brunswick) 2002 llawer yn gliriach a chryfach na'r Bil a'r Cynllun. Mae hyn yn amlwg iawn wrth ystyried mater 12.8 yn y Memorandwm

Esboniadol. Noder yma bod y Bil 'yn ei gwneud yn glir nad yw'r Ddeddf o angenrheidrwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun ddarparu ar gyfer cyfieithu ar y pryd a chyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar bob achlysur'. Bwriad y Bil felly yw diwygio paragraff 8 o Atodlen 2 i'r Ddeddf (Egwyddorion y mae swyddogaethau i'w harfer yn unol â hwy) mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys gosod dyletswydd ar y Cynulliad i fabwysiadu a chyhoeddi Cynllun. Mae'r newid arfaethedig hwn yn cynnwys yr esboniad canlynol:

6 Nothing in section 35(1) or in sub-paragraphs (3) or (5) of this paragraph is to be interpreted as requiring all words spoken or written in one of the official languages to be interpreted or translated into the other.

Mae hyn yn bur wahanol i ffyrdd deddwrf New Brunswick o weithredu.

2.6 Yn ogystal, mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod hyn – sef 'cyfyngu'r ddyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog ysgrifenedig i gyfarfodydd llawn (ond nid i bwyllgorau), eto yn gyson â'r arfer presennol' (12.8, Memorandwm Esboniadol) a bod hyn yn 'adlewyrchiad' o Ddeddf Ieithoedd Swyddogol Iwerddon 2003, ac yn benodol y ffaith 'that contributions (whether oral or in writing) in either of the official languages by persons may be published therein solely in that language.' Yn ymarferol mae'r ddeddfwriaeth Wyddelig yn golygu bod modd i gyfraniad o'r math hwn gael ei gyhoeddi yn yr Wyddeleg neu'r Saesneg yn unig. Mae bwriad y Cynllun yn hyn o beth yn wahanol sef cyhoeddi cyfraniad o'r math hwn yn Saesneg yn unig, os taw Saesneg oedd iaith y cyfraniad, a chyhoeddi'r cyfraniad yn y Gymraeg a Saesneg os taw yn y Gymraeg oedd y cyfraniad yn y lle cyntaf. Mae gweithredu fel hyn yn bur wahanol i'r hyn sydd wedi'i fwriadu gan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol Iwerddon 2003. Mae'r ddeddfwriaeth Wyddelig yn caniatáu am gyhoeddi yn yr Wyddeleg yn unig a hynny ar sail statws yr iaith honno fel iaith genedlaethol a swyddogol y wladwriaeth Wyddelig fel mater o ffaith cyfansoddiadol. Ai bwriad is-baragraff 6 yw caniatáu cyhoeddi rhai cyfraniadau yn y Gymraeg yn unig?

2.7 O ran ei ddewis o fodelau rhyngwladol, mae'r Memorandwm Esboniadol yn codi un rhan yn unig o'r ddeddfwriaeth berthnasol yn New Brunswick. Ond yn hytrach na dilyn trywydd yr enghraifft honno, sy'n gosod darpariaethau ar wyneb y ddeddfwriaeth, fe droir at enghraifft wahanol o ddeddfwrf arall, sef un Iwerddon, nad yw'n gwneud hynny. Nid

esbonnir yn y Memorandwm pam y newidir o'r naill gyd-destun deddfwriaethol i'r llall mor ddisymwth, mewn modd a all ymddangos yn anghyson.

2.8 Yn y Memorandwm Esboniadol noder y canlynol:

Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth ofalus i'r cynnig y dylai dyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion cyfarfodydd llawn gael ei roi ar wyneb y Bil yn hytrach na chael ei adael i'w bennu yn y Cynllun. Ystyriodd y Comisiwn y byddai'n rhaid i'r Cynllun ei hun gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, ac felly, wedi iddo gael ei gymeradwyo, byddai'r Comisiwn o dan ddyletswydd i'w weithredu. Penderfynodd y Comisiwn felly na fyddai cynnwys, yn ychwanegol, ddyletswydd gyfreithiol anhyblyg ar wyneb y Bil ei hun yn angenrheidiol nac yn ddymunol' (6.20, Memorandwm Esboniadol).

2.9 Mae nifer o faterion i'w hystyried yma. Statws yw'r cyntaf. Nid oes gan y Cynllun yr un statws gyfreithiol â'r Bil, mae'n amlwg. O edrych ar sefyllfaoedd sosio-ieithyddol eraill, fel sydd wedi bod yn rhan o'r broses hon gan gynnwys gwaith y 'Panel Adolygu Annibynnol (2010)', megis yr Alban, Catalonia, Gwlad y Basg, Gweriniaeth Iwerddon, New Brunswick, y Swistir, mae'n glir bod y deddfwrfeydd yn yr awdurdodaethau sydd mwyaf tebyg i Gymru o safbwynt sosio-ieithyddol (hynny yw niferoedd o siaradwyr y gwahanol ieithoedd swyddogol, maint poblogaeth, datblygiad ieithyddol ac ati) wedi mabwysiadu dulliau o osod ar wyneb deddfwriaeth berthnasol datganiadau a dyletswyddau ynghylch statws iaith, hawliau ieithyddol, a defnydd o iaith o fewn ac ar draws gweithdrefnau deddfwriaethol a llywodraethiant. Mae un rheswm syml am hyn – mae'n rhoi sicrwydd ac eglurder i'r cyhoedd.

2.10 Mae'r ail fater yn y cyd-destun hwn yn perthyn i hyder y cyhoedd. Ymhlith canlyniadau'r broses ymgynghorol roedd 'cefnogaeth gyffredinol dros osod dyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cyfarfod Llawn ar wyneb y Bil gan bron iawn bawb a ymatebodd' (6.13, Memorandwm Esboniadol) o ran yr ymatebion oedd o blaid. Nid yw'n glir a oedd unrhyw un o'r ymatebion yn erbyn wedi cynnig unrhyw sylw ar fater union gynnwys wyneb y Bil (6.15, Memorandwm Esboniadol). Os taw bwriad y newidiadau arfaethedig yw 'cynyddu hyder y cyhoedd yn ymrwymiad y Cynulliad i wasanaethau dwyieithog' (10.9, Memorandwm Esboniadol), mae canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus

yn awgrymu bod yma gyfle i gynyddu hyder defnyddwyr tebygol gwasanaethau Cymraeg y Cynulliad. Noder mai ymwneud â defnyddio'r Gymraeg y mae'r Bil a'r Cynllun gan taw o dan Faes 20, Atodlen 7, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cwmpo yn y cyd-destun hwn (2.9, 2.10 & 2.11, Memorandwm Esboniadol).

2.11 Mae'r trydydd mater yn ganlyniad statws unigryw ac arbennig y Cynulliad ym mywyd Cymru. Mae cyhoeddiadau academaidd sy'n trafod datganoli yn cynnig mai un o egwyddorion sylfaenol datblygu politi Cymreig yw mabwysiadu math o ddinasyddiaeth sifig Gymreig, sy'n niwtral o safbwynt nodweddion hunaniaethol. O ystyried rôl ddeddfwriaethol, ddemocrataidd a symbolaidd trafodion llawn y Cynulliad, mae'n anodd gweld sut y gellid cysoni cyfieithu trafodion o'r Gymraeg i'r Saesneg, ond nad o'r Saesneg i'r Gymraeg, â diffiniad cynhwysol a sifig o ddinasyddiaeth. Mae'n anodd gweld hefyd pam y dylid caniatáu goruchafiaeth unrhyw hunaniaeth ieithyddol yn y gofod sifig pwysicaf yng Nghymru, sef trafodion llawn y Cynulliad, gan y dylai fod yn niwtral.

2.12 At hyn, mae ieithwedd y Bil yn sôn am hawliau, 'All persons have the right to use either official language when participating in Assembly Proceedings', ieithwedd sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth New Brunswick, yn ôl y Memorandwm Esboniadol (11.4). Ond nid yw'r hawliau hyn yn cael eu hymestyn i'r dinesydd sy'n arfer ei hawl ddemocrataidd i ddarllen neu wrando ar y trafodion hyn. Nid yw'r broblem hon yn bodoli yn neddfwriaeth New Brunswick, gan fod hawliau'r sawl sy'n cyfrannu hefyd yn cael eu hymestyn i'r dinesydd sy'n darllen neu'n gwrando. Fodd bynnag, mae'r broblem yn bodoli yn y Bil ar hyn o bryd.

2.13 Ymddengys felly fod y ddadl o blaid cynnwys y ddyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion cyfarfodydd llawn ar wyneb y Bil yn un gryf.

2.14 O ran materion eraill yn y Bil, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi (11.5) y 'gall y Cynulliad gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan isadrannau (1A - sef 'The official languages must, in the conduct of National Assembly proceedings, be treated on a basis of equality / Wrth gynnal trafodion y Cynulliad, rhaid trin yr ieithoedd swyddogol ar y sail eu bod yn gyfartal [Fersiwn Cymraeg o'r Nodiadau Esboniadol]') ac (1B - sef 'Either official language may be used by any person when participating in National Assembly proceedings / Mae gan bob person yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall wrth gymryd rhan yn nhrafodion y

Cynulliad [Fersiwn Cymraeg o'r Nodiadau Esboniadol] 'y' [...] 'ar y amod bod Comisiwn y Cynulliad yn darparu staff a chyfleusterau eraill i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud ei waith.' Mae geiriad yr eglurhad hwn yn awgrymu bod ymrwymiad y Cynulliad i'r dyletswyddau stadudol arfaethedig o dan y Bil yn amodol ac os nad yw 'staff a chyfleusterau eraill' wedi'u darparu ni fydd y Cynulliad yn abl o weithredu 1A ac 1B. Fel arfer, nid yw gweithredu 'hawl' [1B] statudol yn amodol ar faterion beunyddiol rhedeg sefydliad megis staffio a chyfleusterau. Hefyd, byddai ceisio gosod amod felly yn adlais o'r enghreifftiau o'r arfer gwannach yng nghyd-destun 'Cynlluniau iaith' yng Nghymru.

2.15 O ystyried mor allweddol yw darparu staff a chyfleusterau eraill, dylai'r Atodlen nodi bod yn rhaid i'r Cynllun gynnwys strategaeth sgiliau dwyieithog yn hytrach nag ymrwymiad i ddarparu strategaeth sgiliau iaith yn y dyfodol (paragraff 100, y Cynllun). Wrth ei ymgorffori i'r Cynllun bydd y strategaeth sgiliau iaith hefyd yn agored i ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Fel rhan o'r Cynllun bydd y strategaeth sgiliau iaith yn agored i'w graffu, monitro a chymeradwyo yn yr un modd â gweddill y Cynllun. Os yw gweithredu 1A ac 1B yn 'amodol' (11.5, Memorandwm Esboniadol) ar ddarparu staff yna mae strategaeth sgiliau iaith yn fater hanfodol ac rhaid ei drin fel mater o flaenoriaeth o'r radd flaenaf yn hytrach na fel atodiad o rywfath i'r Cynllun.

3.0 Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol Drafft

3.1 Mae gwendidau yn y Cynllun o safbwynt gweithredu'r Cynllun ac o safbwynt monitro ac adrodd.

3.2 Nodir yn yr adran 'Awdurdod dros gydgysylltu'r Cynllun hwn a chyfrifoldeb amdano' (paragraffau 20-23, y Cynllun) y bydd gan Brifweithredwr a Chlerc y Cynulliad gyfrifoldeb am 'gydgysylltu, monitro a [...] cynghori ar adolygu cynnwys y Cynllun (paragraff 21, y Cynllun).' Nodir hefyd fod 'gan bob rheolwr gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo dros weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w waith' (paragraff 23, y Cynllun) ac hefyd y 'bydd pob maes gwasanaeth o fewn y Cynulliad yn enwebu Cydgysylltydd [...] a fydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor ar weithredu'r Cynllun yn eu meysydd hwy; adolygu'r cynnydd yn erbyn gofynion y Cynllun bob chwarter blwyddyn drwy Fforwm Cydgysylltwyr y Cynllun

leithoedd Swydddogol; hysbysu'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi o unrhyw newidiadau i'r ymrwymadau darparu yn barhaus' (paragraff 24, y Cynllun). Fel sydd yn arferol mewn Cynlluniau Iaith Gymraeg sydd yn arddel arfer da, dylai Comisiwm y Cynulliad ddarparu Cynllun Gweithredu manwl ar yr un pryd ag y cyflwynir y Cynllun leithoedd Swydddogol gan nodi yn union cyfrifoldebau'r sawl sy'n gyfrifol am ei weithredu, y targedau i'w cyflawni a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith. Mae Cynllun Gweithredu Corfforaethol Cynllun Iaith Gymraeg (2011-2016) Llywodraeth Cymru yn enghraifft ragorol. Wrth wneud hyn y bydd yn fanwl glir sut y bwriedir gweithredu'r Cynllun.

3.3 Mae adran yn y Cynllun sydd yn ymdrin â 'Monitro ac Adrodd' (paragraffau 25-27, y Cynllun). Mae'r adran hon yn arwynebol iawn. Nid oes unrhyw fanylion ar fonitro ar wahân i amlinellu'r ymrwymiad moel i fonitro cydymffurfiad â'r Cynllun. Mae modd arddel yr arfer gorau ym maes Cynlluniau Iaith Gymraeg yn y cyd-destun hwn hefyd. Er enghraifft, mae'r Cynlluniau gorau yn gwneud defnydd o 'Ddangosyddion Perfformiad Allweddol', gweler Atodiad 2, Cynllun Iaith Gymraeg (2011-2016) Llywodraeth Cymru.

3.4 Mae peth amwysedd yn perthyn i eiriad rhai cymalau o'r Cynllun. Er enghraifft:

(paragraff 48) 'ar fyr rybudd' – beth yn fanwl yw'r diffiniad o 'fyr rybudd?'

(paragraff 49) 'ar fyr rybudd' – beth yn fanwl yw'r diffinaid o 'fyr rybudd?'

(paragraff 50) 'cyhyd â bod hynny'n rhesymol ymarferol' – beth yn fanwl yw'r diffiniad o 'rhesymol ymarferol?'

(paragraff 51) 'lle nad yw'n bosibl cael y dogfennau yn y ddwy iaith' – os yw'r sefydliadau â chynlluniau iaith neu yn dod o dan drefn safonau mae'n anodd gweld unrhyw reswn pam na fyddai dogfennau, ar gais y Cynulliad, ar gael yn y ddwy iaith. Mewn amgylchiadau pan nad yw'r sefydliad arall, sydd â Chynllun Iaith neu sydd o dan drefn safonau, wedi darparu dogfen yn y Gymraeg pam na ellid gofyn am eglurhad a chyhoeddi hwnnw hefyd? Oni ellid tynnu sylw Comisiynydd y Gymraeg at y ffaith bod sefydliad, sydd â Chynllun Iaith neu sydd o dan drefn safonau, wedi methu â darparu dogfennaeth yn y Gymraeg yn unol â'r disgwyliadau statudol?

(paragraff 70) 'ein huchelgais yw galluogi' – dylid nodi'n hytrach 'bydd Comisiwn y Cynulliad yn galluogi...'? Mae'n llawer mwy pendant.

(paragraff 71) 'byddwn yn ceisio cyflawni' – pam na ellid dweud 'byddwn yn cyflawni?'

(paragraff 82) 'lle bo hynny'n rhesymol ymarferol' - beth yn fanwl yw'r diffiniad o 'rhesymol ymarferol?'

(paragraff 82) 'ar fyr rybudd' – beth yn fanwl yw'r diffiniad o 'fyr rybudd?'

(paragraff 85) 'oes hir iawn' – beth yn fanwl yw'r diffiniad o 'oes hir iawn?' yng nghyd-destun y paragraff hwn?

(paragraff 85) 'ar frys' – beth yn fanwl yw'r diffiniad o 'ar frys?'

Dylai fod modd osgoi amwysedd o'r math.

3.5 Goblygiadau paragraffau 59 a 61 o'r Cynllun yw rhoi blaenoriaeth i'r Saesneg (gweler rhan 2.0, uchod). Mae'r drefn arfaethedig ynglŷn â chyfieithu cyfraniadau a dderbynnir yn y Gymraeg yn unig, a hynny i'r Saesneg, yn wannach na model rhyngwladol y Cynllun yn y mater hwn, sef Deddf Ieithoedd Swyddogol Iwerddon 2002.

3.6 Nodir yn y Cynllun 'ni fydd yn bosibl sicrhau bod siaradwyr Cymraeg o'n gwasanaeth cyswllt cyntaf ar gael, ond rydym wedi ymrwymo i wella sgiliau iaith Cymraeg y staff' (paragraff 94, y Cynllun). Yn ôl yr arfer gorau ym maes Cynlluniau iaith Gymraeg, dylai Comisiwn y Cynulliad nodi mewn Cynllun Gweithredu y camau a'r amserlen ar gyfer mynd i'r afael â'r gwaith hwn. Hefyd, mae'r arfer gorau yn y maes hwn yn cael ei lywio gan ddogfennau Bwrdd yr Iaith Gymraeg 'Canllawiau ar Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog' a 'Chanllawiau ar Recriwtio a'r Iaith Gymraeg.'

3.7 Nodir yn y Cynllun yn yr adran ar 'Reoli ac Annog Sgiliau Dwyieithog Staff y Cynulliad' y 'bydd angen i ni ddatblygu'r maes hwn ymhellach yn y dyfodol' (paragraff 99, y Cynllun). Eto, byddai darparu 'Cynllun Gweithredu' mewn perthynas â'r angen hwn yn gweddu â'r arfer gorau yn y maes. Yn fwy penodol, er mwyn gweddu â'r arfer gorau yn y maes, dylid nodi yn y Cynllun y bydd yr 'hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth ieithyddol' (paragraff

91, y Cynllun) a'r 'strategaeth sgiliau dwyieithog' (paragraff 100, y Cynllun) a'r adran ar 'Recriwtio' (paragraffau 101-106, y Cynllun) yn cael eu llywio gan ddogfennau Bwrdd yr Iaith Gymraeg 'Canllawiau ar Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog', 'Canllawiau ar Recriwtio a'r Iaith Gymraeg', 'Canllawiau ar Drefnu Hyfforddiant Iaith Gymraeg yn y Gweithle' a 'Phecyn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith' (gweler, er enghraifft, Adran 7, Cynllun Iaith Gymraeg (2011-2016) Llywodraeth Cymru).

3.8 Ar fater 'Gweithio mewn Partneriaeth', er mwyn gweddu â'r arfer gorau yn y maes dylid nodi y bydd y Cynllun yn dilyn canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 'Bartneriaethau a'r Iaith Gymraeg (gweler, er enghraifft, 7.7, Cynllun Iaith Gymraeg (2011-2016) Llywodraeth Cymru).

3.9 Nodir yn y Cynllun y bydd Biliau'r Cynulliad sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad 'ar gael yn y ddwy iaith a gall Aelodau'r Cynulliad gynnal eu gwaith craffu yn y naill iaith neu'r llall' (paragraff 56, y Cynllun). Nodir hefyd fod eithriadau yn bosibl, a hynny o dan Reol Sefydlog 26.5. Mae Rheol Sefydlog 26.5 yn nodi'r canlynol:

Rhaid i Fil gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg ac eithrio yn yr achosion canlynol:

(i) os yw'r Aelod sy'n gyfrifol amdano yn datgan mewn ysgriflen, mewn perthynas â Bil llywodraeth, na fyddai, am resymau penodedig, yn briodol o dan yr amgylchiadau neu yn rhesymol ymarferol i'r Bil gael ei gyflwyno yn y ddwy iaith; neu
(ii) os nad yw gwneud hynny yn cyd-fynd â phenderfyniadau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26.3.

(Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tachwedd 2011).

Er mwyn eglurder, byddai'n ddefnyddiol pe bai modd enghreifftio yn y Cynllun y math o amgylchiadau fyddai'n golygu nad yw'n briodol nag yn ymarferol rhesymol i gyflwyno Bil yn y ddwy iaith.

3.10 Dylid nodi rhai gwallau ffeithiol yn y ddogfennaeth, sef:

(paragraff 16, y Cynllun) 'Mesur y Gymraeg (Cymru) 2012,'

(2.2, Memorandwm Esboniadol) 'Deddf yr Iaith Gymraeg 2003,'

(12.8, Memorandwm Esboniadol) 'Deddf Ieithoedd Swyddogol Iwerddon 2002.'

(paragraff 90, y Cynllun) 'Anogir sefydliadau nad oes ganddynt gynlluniau iaith i weithredu'n unol ag egwyddorion eu cynlluniau.' Dywed yn y fersiwn Saesneg o'r Cynllun: 'Organisations without language schemes will be encouraged to operate in accordance with our outlined principles.'

4.0 Casgliadau

4.1 Mae'r Bil a'r Cynllun yn arddel dehongliadau gwan o'r modelau rhyngwladol a ddefnyddid o ddeddfwriaeth gymharol, sef New Brunswick (Canada) a Gweriniaeth Iwerddon yn bennaf. Mae fel petai'r esiamplau rhyngwladol wedi'u nithio gan gasglu'r us yn hytrach na'r grawn.

4.2 Mae dadl gref o blaid cynnwys y ddyletswydd i ddarparu cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion cyfarfodydd llawn ar wyneb y Bil.

4.3 Nid yw'r Cynllun, fel y mae, yn adlewyrchu yr arfer gorau ynghylch Cynlluniau Iaith Gymraeg, gan gynnwys Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

5.0 Cyfeiriadau

Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol).

Cynllun Iaith Gymraeg (2011-2016) Llywodraeth Cymru.

Cynllun Ieithoedd Swyddogol drafft, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Deddf Ieithoedd Swyddogol (Iwerddon) 2003.

Deddf Ieithoedd Swyddogol (New Brunswick) 2002.

Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Memorandwm Esboniadol Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swydddogol) (Ionawr, 2012).

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Panel Adolygu Annibynnol (2010) 'Adolygiad o Wasanaethau Dwyieithog Cynulliad Cenedlaethol Cymru' Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Tachwedd, 2011).

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol)

Papur 2: Grŵp Swyddogion yr Iaith Gymraeg

Onid ydym yn nodi'n wahanol, dylid ystyried ein bod yn cytuno neu'n croesawu pob elfen o'r Bil, heblaw am yr hyn a nodir isod.

1. Mae angen y Bil yn bendant gan nad yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn addas at y diben o ran sicrhau bod rheidrwydd ar y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad i gyflawni'r hyn y mae disgwyl i sefydliadau cyhoeddus eraill Cymru ei gyflawni o ran dwyieithrwydd. Nid yw hynny'n dderbyniol o ystyried taw'r Cynulliad yw prif sefydliad Cymru ac os nad yw'r Cynulliad yn rhoi statws swyddogol i ddefnydd yr iaith Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg wrth arfer ei swyddogaethau, sut gellid disgwyl i unrhyw sefydliad arall yng Nghymru gyflawni eu dyletswyddau statudol yn unol â deddfwriaeth bresennol ar y Gymraeg.
2. Rhaid i'r Bil osod yr un dyletswyddau ar y Cynulliad â'r rhai a osodir ar y Llywodraeth a sefydliadau cyhoeddus eraill gan ddeddfwriaeth bresennol. Dylid newid 'uchelgais' (e.e. Pwynt 4.4. (memorandwm esboniadol)) i 'ddyletswydd' ym mhob achos, wedyn bydd y Bil yn cyflawni diben y Bil.
3. Mae'r 4 ddarpariaeth newydd yn gryn welliant ar yr hyn a fu ynghynt ac yn creu gwir gydraddoldeb ieithyddol o'i gymharu â'r geiriad blaenorol a oedd yn ein barn ni yn taseilio'r Gymraeg.
4. Ar y cyfan rydym yn croesawu'r darpariaethau yn gyffredinol, heblaw am y pwyntiau canlynol i'r is-gwestiynau yng nghwestiwn 4 sef, yn benodol:

iii. Mae'r geiriad yn is-baragraff (6) yn amwys ac yn aneglur:

“(6) Nothing in this paragraph (or in section 35(1)) is to be interpreted as requiring all words spoken or written in one of the official languages to be interpreted or translated into the other.”

Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y geiriad hwn yn adlewyrchu'r hyn sydd yn Neddf Ieithoedd Swyddogol Iwerddon 2002 (adran 6(3), rydym o'r farn bod angen cynnwys geiriad tebycach i'r Ddeddf honno (12.8 y bil) (isod) sydd yn llawer cliriach ac yn esbonio'r hyn o olygir yn well:

“Every official report of the debates and other proceedings of the Houses of the Oireachtas shall be published in each of the official languages, except that contributions (whether oral or in writing) in either of the official languages by persons may be published therein solely in that language.”

v. Mae cynnwys is-baragraff (9) ynghylch pa mor aml yr adolygir y Cynllun yn siomedig, gan ei fod wedi ei newid o unwaith bob 4 mlynedd i unwaith bob 5 mlynedd.

(9) The Assembly Commission—

- (a) must, at least once every five years, review the Scheme, and
- (b) may, at any time, adopt a new Scheme or an amendment to the existing Scheme.

(a) Credwn fod angen adolygu'r cynllun yn fwy aml na bob 5 mlynedd, i gyd-fynd â thymor y Cynulliad. Hefyd mae deddfwriaeth cydraddoldeb yn gyffredinol yn annog adolygu cynlluniau bob 3 blynedd a dyna'r arfer gyda Chynlluniau Iaith awdurdodau lleol bellach hefyd. Beth yw'r rhesymau dros ymestyn cyfnod adolygu'r Cynllun o 4 i 5 mlynedd?

(b) Os ceir Cynllun neu ddiwygiad newydd yna dylai fod yn gryfach o blaid y Gymraeg na'r hyn a fu ynghynt a rhaid ymgynghori â'r cyhoedd arno.

vi. Yng ngeiriad is-baragraff (10)(b)

(10)(b) the Assembly Commission has considered any representations made about the draft Scheme (or draft amendment) by—

- (i) members of the public, and
- (ii) the Assembly, and

Dylid hefyd gynnwys pob sefydliad a gwmpesir gan ddarpariaethau'r Mesur Iaith.

5. Os ydych yn cynnwys ein sylwadau a'n gwelliannau ni yna rydym yn cytuno bod cydbwysedd cywir rhwng y gofynion penodol sydd wedi'u cynnwys ar wyneb y bil a'r darpariaethau sydd i'w cynnwys yn y Cynllun.
6. Mae'n bosib nad oes digon o gysylltiad neu gysylltiad amlwg rhwng y Bil a'r Mesur Iaith. Mae angen i'r Mesur gael ei weithredu'n effeithiol gan sefydliadau eraill er mwyn i'r Bil weithio yn y Cynulliad a vice versa.
7. Gan fod y Mesur Iaith yn datgan bod y Gymraeg a'r Saesneg yn ieithoedd swyddogol Cymru, ac felly yn gyfartal o ran statws, mae unrhyw ddadleuon ynghylch gwariant yn amherthnasol. Dylid derbyn bod cyllid y Cynulliad yn ei gyfanrwydd felly ar gyfer darparu gwasanaethau yn y ddwy iaith yng Nghymru, ac os caiff cynnwys gweithredu'n Gymraeg eu cynnwys, dylid hefyd cynnwys costau gweithredu'n Saesneg a chymharu gwariant ar sail hynny, yn hytrach nag ystyried darparu gwasanaethau'n Gymraeg yn gost 'ychwanegol'. Mae'r gallu gan swyddogion dwyieithog i weithio'n ddwyieithog ac felly nid oes angen nodi cost ychwanegol o gwbl, dim ond cynllunio'r gweithlu'n fwy effeithiol o bosib.
8. Ar y cyfan mae'r Bil yn cryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ac ar wahân i'r pryderon uchod rydym yn croesawu cynnwys y Bil.
9. Dim sylwadau pellach am adrannau penodol o'r Bil, ond hoffwn wybod pam fod y Bil ei hun (er yn ymwneud â dwyieithrwydd ac er ei fod wedi ei baratoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru) yn Saesneg yn unig fel ein bod ni felly heb ddewis ond am ddyfynnu'r adrannau uchod yn Saesneg? Hefyd, bu'n rhaid chwilio am y dogfennau

ar ochr Saesneg gwefan y Cynulliad a newid iaith gan nad oedd chwilio'n Gymraeg yn gweithio o gwbl o ran dod o hyd i'r dogfennau perthnasol.

10. Mae ein barn a'n sylwadau ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol Drafft yn gynwysedig fel **Atodiad A** i'r ymateb hwn.

11. Mae'r newidiadau a amlinellir ym mharagraff 6.19 yn iawn heblaw am y canlynol sy'n amwys:

'cynnwys paragraffau esboniadol yn esbonio pam mae cyfathrebu rhwng Aelodau unigol y Cynulliad â'r cyhoedd y tu allan i gwmpas y Cynllun;'

Ydy hyn yn golygu nad oes rhaid i ACau ateb yn Gymraeg i lythyr a dderbyniwyd yn Gymraeg? Os felly rydym yn anghytuno. Mae gofyn i aelodau cynghorau lleol i ymateb yn Gymraeg. Pam mae hwn tu fas i gwmpas y Cynllun? Ac oni fyddai'n cael ei gwmpasu gan ddarpariaethau'r Mesur Iaith a hawl yr unigolyn ta beth, ac os felly dylid nodi hynny yn ei le.

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol)

Papur 2: Atodiad A - Grŵp Swyddogion yr Iaith Gymraeg

Atodiad A

Cefndir

6. Mae Adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r hyn a ganlyn ar hyn o bryd, yng nghyd-destun Trin yn gyfartal:

(1) The Assembly must, in the conduct of Assembly proceedings, give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

7. Mae paragraff 8 (3) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n ymwneud â'r egwyddorion y mae swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad i'w harfer yn unol â hwy, yn ychwanegu'r hyn a ganlyn:

(3)... effect must be given, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.

11. Mae'r Cynllun hwn, sydd i'w baratoi ac i'w fabwysiadu'n unol â darpariaethau'r paragraff 8(3) newydd arfaethedig o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol), yn nodi sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu darparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd. Mae'n cynnwys:

- uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad a staff i weithio yn y ddwy iaith;

17. O ystyried hyn, yn ystod ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2011, cytunodd Comisiwn y Cynulliad i gynnig Bil newydd, sef Bil leithoedd Swyddogol, er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud â lle'r Gymraeg yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad yn cael eu diweddarau a'u rhoi ar sail statudol gadarn.

Diffiniad o'r 'cyhoedd'

18. Yn y Cynllun hwn, ystyr y term 'cyhoedd' yw unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff anghorfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys cyrrff gwirfoddol ac elusennau. Daw cyfarwyddwyr ac unigolion eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig o dan y term 'cyhoedd' hefyd. Fodd

bynag, nid yw'n cynnwys pobl mewn cyrff cyhoeddus wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

19. Nid yw'r Cynllun hwn yn ymdrin â gohebiaeth unigol rhwng Aelodau'r Cynulliad a'u hetholwyr.

Awdurdod dros gydgysylltu'r Cynllun hwn a chyfrifoldeb amdano

23. Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo dros:

- weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w waith;
- annog staff i ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol;
- sicrhau bod aelodau newydd o staff yn ymwybodol o ethos dwyieithog y Cynulliad Cenedlaethol, uchelgais y Cynllun a'r gwasanaethau a amlinellir.

Monitro ac adrodd

27. Ar ôl i Gomisiwn y Cynulliad ei ystyried, bydd yr adroddiad cydymffurfio blynyddol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo

31. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a staff y Cynulliad yn ymwybodol o'r Cynllun hwn a'r gwasanaethau a ddarperir. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog drwy:

- sicrhau y gellir cynnig ein holl wasanaethau cyhoeddus, hyd eithaf ein gallu, yn ddwyieithog pan fydd y cyhoedd yn cysylltu â ni am y tro cyntaf, boed hynny ar lafar, wyneb-yn-wyneb, yn ysgrifenedig neu drwy ddarparwyr gwasanaeth eraill ar ein rhan;

Ymdrin â chwynion

37. Gallwch fynd ati i gwyno drwy:

- Yn y lle cyntaf, gyflwyno eich cwyn neu'ch pryder i swyddog yr ydych wedi bod yn delio ag ef.

Uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol

39. Uchelgais y Cynulliad Cenedlaethol yw bod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

40. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried bod y Cynllun hwn yn galluogi i'r uchelgais hwnnw gael ei wireddu

42. Diben strategaethau ac uchelgeisiau'r Cynulliad Cenedlaethol yw sicrhau bod gan y ddwy iaith yr un statws o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

44. I wireddu'r uchelgais hwn, byddwn yn ystyried y ffactorau a ganlyn:

Gwasanaethau dwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff

46. Ein huchelgais yw hwyluso'r broses o sicrhau bod trafodion y Cynulliad Cenedlaethol yn wirioneddol ddwyieithog drwy roi deunyddiau dwyieithog i Aelodau'r Cynulliad a'r dulliau iddynt gyfathrebu â'i gilydd a'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Gwasanaethau dwyieithog: paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a'r cyfarfodydd pwyllgor

48. Bydd y dogfennau i'w hystyried yn gyhoeddus yn ystod y Cyfarfod Llawn, a ddrafftwyd gan Gomisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ar wahân i'r rheini sydd â dyletswyddau fel Gweinidog) a staff y Cynulliad ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg. Os bydd eitem yn cael ei chynnwys ar agenda'r Cyfarfod Llawn ar fyr rybudd, efallai na fydd yn bosibl cynhyrchu'r papurau hynny'n ddwyieithog, er y byddwn yn ceisio gwneud hynny ar bob achlysur.

49. Bydd y dogfennau i'w hystyried yn gyhoeddus yn ystod cyfarfodydd pwyllgor a ddrafftwyd gan Gomisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ar wahân i'r rheini sydd â dyletswyddau fel Gweinidog) a staff y Cynulliad ar gael ar yr un pryd i aelodau'r pwyllgorau yn Gymraeg a Saesneg ac o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfodydd perthnasol. Bydd y cadeiryddion pwyllgor sy'n ddwyieithog yn cael papurau briffio dwyieithog i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein trafodion. Os bydd eitem frys yn cael ei chynnwys ar agenda pwyllgor ar fyr rybudd, efallai na fydd yn bosibl cyhoeddi'r papurau hynny'n ddwyieithog, er y byddwn yn ceisio gwneud hynny ar bob achlysur.

50. Bydd dogfennau ategol, a ddrafftwyd gan Gomisiwn y Cynulliad a staff y Cynulliad ar gyfer pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn, yn cael eu paratoi yn y ddwy iaith swyddogol, cyhyd â bod hynny'n rhesymol ymarferol. Byddwn yn darparu'r rhain i hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan Aelodau'r Cynulliad yn ein trafodion. Lle bydd hyn yn anymarferol, byddwn yn cynghori Pennaeth y Gwasanaeth perthnasol.

51. Bydd ceisiadau am ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau pwyllgor yn cael eu cyflwyno yn ddwyieithog a byddwn yn gwneud cais i ddogfennau a geir gan sefydliadau allanol neu drydydd parti y bwriedir eu cyhoeddi a / neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol fod yn ddwyieithog. Ein disgwyliad yw y bydd sefydliadau sydd â chynlluniau iaith, safonau neu bolisiau iaith yn cyflwyno ymatebion yn y ddwy iaith i sicrhau y gall Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd gymryd rhan yn y trafodion yn y ddwy iaith.

Gohebiaeth gan staff i Aelodau'r Cynulliad

67. Byddwn yn ceisio anfon gohebiaeth ysgrifenedig at Aelodau unigol, grwpiau plaid neu fforymau eraill yn ddwyieithog neu yn Gymraeg neu Saesneg pan fydd dewis wedi'i fynegi. Byddwn yn hysbysu'r Aelodau pan na fydd hyn yn bosibl.

Gwasanaethau dwyieithog i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

70. Ein huchelgais yw galluogi'r cyhoedd i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog. Mae gweddill yr adran hon yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni hyn.

73. Bydd dogfennau cyfreithiol a chytundebau cyfreithiol gydag unigolion, sefydliadau neu grwpiau yn cael eu cynnig yn Gymraeg neu Saesneg.

Cyfarfodydd unigol

82. Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn dymuno trafod gweithdrefnau neu wasanaethau'r Cynulliad Cenedlaethol wyneb-yn-wyneb, mae croeso iddo wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Byddwn yn trefnu'r cyfarfod drwy ganfod ymlaen llaw pa iaith yr hoffai'r aelod o'r cyhoedd ei siarad, ac os yw'n dewis y Gymraeg, byddwn yn trefnu bod siaradwr Cymraeg yn mynd i'r cyfarfod. Os nad yw hynny'n bosibl, byddwn yn trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Os nad yw'r opsiynau hynny ar gael, gwahoddir yr aelod o'r cyhoedd i ymdrin â'r mater mewn gohebiaeth yn Gymraeg neu i barhau â'r cyfarfod yn Saesneg. Pan gynhelir cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb ar fyr rybudd, dilynir y camau uchod, ond ni allwn sicrhau y bydd siaradwr Cymraeg ar gael bob tro.

Rheoli ac annog sgiliau dwyieithog staff y Cynulliad

97. Er mwyn i ni wireddu ein huchelgais i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog, byddwn yn:

99. Yn ogystal ag annog staff i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg, rydym yn bwriadu lleihau ein dibyniaeth ar ein gwasanaeth cyfieithu dros amser. Bydd hyn yn debygol o olygu y bydd angen i fwy o'n staff dwyieithog ddatblygu eu sgiliau drafftio yn Gymraeg. Mae'r defnydd cynyddol o'r gwasanaeth gwirio testun yn awgrymu y bu gwelliannau yn y maes hwn a bod mwy o staff yn paratoi papurau drafft yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd angen i ni ddatblygu'r maes hwn ymhellach yn y dyfodol. Os ydym am wireddu uchelgais y Cynullun hwn, mae angen i nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg gynyddu hefyd.

Gweithio mewn partneriaeth

119. Os bydd Comisiwn y Cynulliad yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol o dan arweinyddiaeth sefydliadau eraill, bydd cyfraniad Comisiwn y Cynulliad yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Bydd y partneriaid eraill yn cael eu hannog i gydymffurfio â'r Cynllun hwn yn ogystal neu, o leiaf, gydag ysbryd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 2 – Y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 7 Mawrth 2012**

Amser: **09:30 – 11:30**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_07_03_2012&t=0&l=cy



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Ann Jones (Cadeirydd)
Janet Finch-Saunders
Mike Hedges
Mark Isherwood
Bethan Jenkins
Gwyn R Price
Ken Skates
Alun Ffred Jones (yn lle Rhodri Glyn Thomas)
Joyce Watson
Eluned Parrott (yn lle Peter Black)
Peter Black

Tystion:

Colin Nosworthy, Cymdeithas yr Iaith Cymraeg
Ceri Phillips, Cymdeithas yr Iaith Cymraeg
Osian Rhys, Cymdeithas yr Iaith Cymraeg
Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr, Cymdeithas
Cyfieithwyr Cymru
Berwyn Prys Jones, Cadeirydd, Cymdeithas
Cyfieithwyr Cymru

Staff y Pwyllgor:

P Gareth Williams (Clerc)
Leanne Hatcher (Dirprwy Clerc)
Joanest Jackson (Cyngorydd Cyfreithiol)
Owain Roberts (Ymchwilydd)

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

- 1.1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y tystion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.
- 1.1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rhodri Glyn Thomas a Peter Black ar gyfer eitemau 2 a 3, o ystyried eu swyddogaethau ar Comisiwn y Cynulliad.
- 1.1.3 Croesawodd y Cadeirydd Alun Ffred Jones ac Eluned Parrott i'r cyfarfod, a oedd yn dirprwyo ar eu rhan, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.
- 1.1.4 Croesawodd y Cadeirydd Peter Black ar gyfer eitem 4 ar y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru).

2. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Sesiwn dystiolaeth Cyfnod 1 – Cymdeithas yr Iaith

- 2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am y Bil gan Gymdeithas yr Iaith.
- 2.2 Cytunodd Cymdeithas yr Iaith i ddarparu gwybodaeth ymchwanegol i'r Pwyllgor.

3. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol): Sesiwn dystiolaeth Cyfnod 1 – Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

- 3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am y Bil gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

4. Sesiwn Breifat: Ystyried y materion allweddol ynghylch y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

- 4.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o eitem 4, yn unol â Rheol Sefydlog 17.42 (vi), i ystyried materion allweddol ac argymhellion ei adroddiad ar y Bil.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee

Cynulliad
 Cenedlaethol
 Cymru
 National
 Assembly for
 Wales



Ann Jones AC AM

Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
 Llywodraeth Leol
 Chair, Communities, Equalities and Local Government
 Committee

5 Mawrth 2012

Annwyl Ann

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Darpariaeth annigonol o
 doiledau cyhoeddus**

Byddwch yn ymwybodol bod deiseb, sy'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r goblygiadau i iechyd a lles cymdeithasol o gau toiledau cyhoeddus, wedi dod i law y Pwyllgor Deisebau. Mae hefyd yn gofyn iddo annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gyfer llywodraeth leol sy'n sicrhau bod darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus ar gael.

Cyfeiriwyd y ddeiseb at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Mehefin 2011 a chynhaliwyd ymchwiliad undydd ar 19 Ionawr 2012 i ystyried y goblygiadau i iechyd a lles cymdeithasol o gael darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus. Deallaf hefyd i'r Pwyllgor Deisebau ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ofyn a fyddai'n fodlon ystyried elfennau llywodraeth leol a chydraddoldeb y ddeiseb. Mae adroddiad ar y dystiolaeth a ddaeth i law wedi'i atodi i'r llythyr hwn, er gwybodaeth.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law, mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr achos dros gael darpariaeth well o doiledau cyhoeddus, er lles iechyd cyhoeddus, yn un cryf. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Pwyllgor yn credu bod y dystiolaeth a gasglwyd yn awgrymu bod achos prima facie dros gynnal ymchwiliad pellach i ddarpariaeth awdurdodau lleol o gyfleusterau toiledau cyhoeddus. Gwnaethpwyd cyfres o awgrymiadau ymarferol gan dystion o ran sut y gellid cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yn well, er mwyn cael gwell canlyniadau i iechyd cyhoeddus. Rydym o'r farn y gallai pobl sydd â mwy o arbenigedd mewn materion llywodraeth leol ymchwilio i'r atebion posibl hyn.

Bae Caerdydd
 Cardiff Bay
 CF99 1NA

Tudalen 25 Ffôn / Tel: 029 2089 8403
 E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno y dylwn i, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ddwyn y mater hwn i'ch sylw. Pan fydd eich Pwyllgor yn ystyried ei flaenraglen waith, rwy'n gobeithio y gallwch ystyried y mater hwn ac ymchwilio iddo ymhellach.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i dynnu eu sylw at y gwaith pwysig hwn.

Yn gywir

Mark Drakeford.

Mark Drakeford AC AM
Cadeirydd - Chair

Cc Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Goblygiadau iechyd cyhoeddus o
ddarpariaeth annigonol o doiledau
cyhoeddus – adroddiad ar y dystiolaeth

Mawrth 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8403
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd hon a'i hysgrifennu.
Tudalen 28

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Goblygiadau iechyd cyhoeddus o
ddarpariaeth annigonol o doiledau
cyhoeddus – adroddiad ar y dystiolaeth

Mawrth 2012



Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: iechyd corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Mark Drakeford (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Gorllewin Caerdydd



Mick Antoniw

Llafur Cymru
Pontypridd



Rebecca Evans

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Vaughan Gething

Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth



William Graham

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Elin Jones

Plaid Cymru
Ceredigion



Darren Millar

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Lynne Neagle

Llafur Cymru
Tor-faen



Lindsay Whittle

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Kirsty Williams

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Cynnwys

Cyflwyniad	5
Cefndir	6
Digonolrwydd y ddarpariaeth bresennol o doiledau cyhoeddus yng Nghymru	8
Nifer y toiledau cyhoeddus yng Nghymru a'u cyflwr	8
Oriau agor	11
Cydraddoldeb y ddarpariaeth	11
Darpariaeth amgen	12
Effaith ar iechyd a lles cymdeithasol unigolion	14
Effaith ar iechyd corfforol	14
Effaith ar iechyd meddwl	15
Effaith ar iechyd yr amgylchedd	16
Atebion posibl	18
Gwneud y gorau o adnoddau presennol	18
Codi tâl	18
Cynllunio	19
Strategaeth ar gyfer Cymru	19
Ymglyniad Cymunedol	20
Casgliad	21
Atodiad A – Rhestr o ymgynghoreion	22

Cyflwyniad

1. Ar 19 Ionawr 2012 bu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor i gyhoeddi crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod ei ystyriaeth o'r ddeiseb.
2. Caiff y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei chrynhoi yn y ddogfen hon. Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, mae'r Pwyllgor yn bendant o'r farn bod yr **achos iechyd cyhoeddus** dros well darpariaeth o doiledau cyhoeddus yn gryf. Hefyd, cred y Pwyllgor fod y dystiolaeth a gasglwyd yn tanlinellu'r achos dros ymchwilio ymhellach i **ddarpariaeth awdurdodau lleol** o doiledau cyhoeddus. Gwnaeth y tystion gyfres o awgrymiadau ymarferol ynghylch sut y gellid cynllunio'r ddarpariaeth leol yn well, a'i darparu, gyda chanlyniadau gwell i iechyd cyhoeddus. Byddai gwaith o'r fath yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ynghyd â'r Gwenidog perthnasol, ond eu penderfyniad hwy fyddai gwneud hynny ai peidio.

CASGLIADAU ALLWEDDOL Y PWYLLGOR

Wrth adrodd am y dystiolaeth a amlinellir yn yr adroddiad hwn i'r Cynulliad, mae'r pwyllgor wedi dod i'r casgliadau allweddol canlynol:

Casgliad Allweddol 1

Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn cefnogi'r farn bod achos iechyd cyhoeddus dros well darpariaeth o doiledau cyhoeddus.

Casgliad Allweddol 2

Mae set o atebion ymarferol posibl yn bodoli fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn - a allent pe caent eu rhoi ar waith, arwain at well darpariaeth leol o doiledau cyhoeddus. Ein barn ni yw bod yr atebion posibl hyn yn haeddu ymchwiliad pellach gan rai sydd â mwy o brofiad mewn materion yn ymwneud â llywodraeth leol.

Cefndir

3. Cyflwynodd y Cyngorydd Louise Hughes y ddeiseb ganlynol i Bwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010:

“Yr ydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i’r effeithiau posibl ar iechyd a lles cymdeithasol a allai ddeillio o gau toiledau cyhoeddus ac annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddigonol o doiledau cyhoeddus.”¹

4. Ar 21 Mehefin 2011, cytunodd y Pwyllgor Deisebau i gyfeirio’r ddeiseb hon at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (“y Pwyllgor”). Gofynnodd y Pwyllgor Deisebau i’r Pwyllgor ystyried cynnal ymchwiliad i agweddau iechyd y ddeiseb. Ysgrifennodd y Pwyllgor Deisebau hefyd at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ofyn a fyddai’n ystyried agweddau llywodraeth leol a chydraddoldeb y ddeiseb.

5. Ym mis Hydref 2011, cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn dystiolaeth er mwyn ystyried goblygiadau iechyd a lles cau toiledau cyhoeddus. Cytunodd y Pwyllgor, o gofio’i gylch gwaith, y byddai’n canolbwyntio ar oblygiadau iechyd cyhoeddus darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus, gan adael materion yn ymwneud â chanllawiau awdurdodau lleol i’r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

6. Ymgynghorodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid perthnasol yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2011. Mae rhestr o’r ymgynghoreion wedi’i hatodi yn Atodiad A. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i’r Pwyllgor ar wefan y Cynulliad.² Cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol sesiwn dystiolaeth lafar unigryw ar 19 Ionawr 2012. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Louise Hughes, y prif

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *P-03-292 -Darparu Toiledau Cyhoeddus*, Mehefin 2010 [fel ar 15 Chwefror 2012]

² Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *P-03-292 -Darparu Toiledau Cyhoeddus*, Mehefin 2010 [fel ar 15 Chwefror 2012]

ddeisebydd, a chynrychiolwyr o Age Cymru, Senedd Pobl Hŷn Cymru, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Y Rhwydwaith IBS, Cymdeithas Toiledau Prydain a Llywodraeth Cymru. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gwaith hwn.

Digonolrwydd y ddarpariaeth bresennol o doiledau cyhoeddus yng Nghymru

7. Mae digonolrwydd y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn ymwneud nid yn unig â nifer y toiledau cyhoeddus a ddarperir, ond hefyd â'u glendid a'u cyflwr (gan gynnwys argaeledd cyfleusterau golchi dwylo a gwaredu deunyddiau iechydol), eu horiau agor, a'u haddasrwydd ar gyfer pobl ag anghenion gwahanol. Caiff y materion hyn eu hystyried isod.

Nifer y toiledau cyhoeddus yng Nghymru a'u cyflwr

8. Mae adroddiad 2009 Help the Aged yng Nghymru (fel y gelwid Age Cymru yn flaenorol) *Nowhere to Go in Wales*³ yn crynhoi ei arolwg o farn pobl hŷn ar y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn eu hardal leol. Teimlai nifer uchel o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ei bod yn anodd dod o hyd i doiledau cyhoeddus neu nad oeddent ar agor pan oedd eu hangen, ac nad oedd y cyfleusterau'n bodloni'u hanghenion ac nad oeddent yn lân nac yn ddiogel. Dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor am y dirywiad cyffredinol yn nifer y toiledau cyhoeddus, honiad a gefnogwyd gan Mike Bone o Gymdeithas Toiledau Prydain a ddywedodd fod nifer y toiledau cyhoeddus wedi gostwng oddeutu 40% dros y blynyddoedd diwethaf.⁴

9. Dywedodd Chris Brereton, Dirprwy Brif Gyngorydd Iechyd yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor na allai ddod o hyd i ffigurau am nifer bresennol y toiledau cyhoeddus yng Nghymru,⁵ ac felly ni allai gymharu'r darlun cyflawn â'r ddarpariaeth o flynyddoedd blaenorol. Mae ffigurau a gafwyd gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Awst 2011 yn dangos gostyngiad o oddeutu 10% yn y ddarpariaeth ers 2007, er na ddarparwyd gwybodaeth gan dri awdurdod lleol (gweler Ffigur 1)

³ Help the Aged yng Nghymru, [Nowhere to Go in Wales](#), 2009 [fel ar 15 Chwefror 2012]

⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 81

⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 156

Ffigur 1: Cyfleusterau cyhoeddus yng Nghymru

Hyd at y flwyddyn 2000 byddai'r Comisiwn Archwilio'n arfer â gwneud arolwg o ddarpariaeth awdurdodau lleol o doiledau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Ers hynny ni chafodd y wybodaeth ei chasglu'n ganolog, er, fel rhan o'i Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus, gwnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy arolwg o holl awdurdodau lleol Cymru yn gynnar yn 2007.

Mae'r tabl canlynol yn rhestru nifer y cyfleusterau cyhoeddus yng Nghymru fesul ardal awdurdod lleol o ddau arolwg diwethaf y Comisiwn Archwilio, sef arolwg Conwy, a gwybodaeth a gasglwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil o wefannau awdurdodau lleol yn 2010 a 2011 (fel ar 25 Awst 2011). Nid yw pob awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth am y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus ar ei wefan.

Darparwyd linciau yn y tablau, lle'r oeddent ar gael ar gyfer 2011, i adrannau o'r gwefannau sy'n darparu manylion am leoliadau penodol.

Awdurdod Lleol	1998/9	1999/00	2007	2010	2011
Blaenau Gwent	21	21	11	11	13
Pen-y-bont ar Ogwr	21	20	20	15	13
Caerffili	18	18	19	9	9
Caerdydd	41	41	13	8	7
Sir Gaerfyrddin	81	81	51	42	40
Ceredigion	55	54	47	49	49
Conwy	54	54	56	56	46
Sir Ddinbych	23	4	20	18	18
Sir y Fflint	12	13	12	-	-
Gwynedd	74	74	102	80	78
Ynys Môn	35	36	34	34	34
Merthyr Tudful	15	11	11	-	-
Sir Fynwy	26	25	17	27	-
Castell-nedd	4	4	15	-	30
Port Talbot					
Casnewydd	15	12	11	11	7
Sir Benfro	109	93	99	-	96
Powys	92	80	55	50	50
Rhondda	37	37	21	21	21
Cynon Taf					
Abertawe	29	29	19	19	19
Tor-faen	2	13	2	2	2
Bro	25	24	21	20	22
Morgannwg					
Wrecsam	17	10	11	11	11
Cyfanswm	806	754	667		

Ffynhonnell: Y Comisiwn Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Gwefannau Awdurdodau Lleol [fel ym mis Awst 2011]

10. Yn ychwanegol at amlygu dirywiad yn nifer y toiledau cyhoeddus yng Nghymru, pwysleisiodd y tystion fod hen seilwaith y cyfleusterau yn rhwystr i ddarpariaeth ddigonol. Agorwyd llawer o'r cyfleusterau am y tro cyntaf lawer blwyddyn neu ddegawd yn ôl, a gallai datblygiadau ac adfywio ers hynny fod wedi arwain at i'r cyfleusterau hynny fod wedi eu lleoli mewn mannau anghyfleus wedi hynny.⁶ Clywodd y Pwyllgor hefyd dystiolaeth anecdotaidd fod awdurdodau lleol wedi defnyddio'r gost a oedd ei angen i addasu hen gyfleusterau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd fel esgus dros gau'r cyfleustrau'n gyfan gwbl.⁷ Mynegodd y tystion bryder am hyn a phwysleisiwyd er nad oedd cyfleusterau o'r fath yn bodloni anghenion pawb, eu bod yn darparu gwasanaeth na ddylid ei ddileu o ganlyniad anfwriadol i ddeddfwriaeth.⁸

11. Clywodd y Pwyllgor hefyd sut y gall cyfleusterau gwael atal pobl rhag eu defnyddio a gallai hyn gael mwy o effaith ar iechyd yr amgylchedd. Dywedodd Dr Sara Hayes wrth y Pwyllgor fod argaeledd cyfleusterau golchi dwylo digonol, gan gynnwys dŵr cynnes a sebon i olchi dwylo a sychwyr neu dywelion papur i'w sychu, yn sylfaenol i leihau trosglwyddiad haint. Cyfeiriodd hefyd at achosion o'r noro-virus a oedd yn gysylltiedig ag un person yn methu â golchi ei ddwylo'n iawn.⁹ Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd neges Dr Hayes sef:

“Hand-washing is known to be the key to minimising transmission of infection – it is a fundamental point that everyone must be able to wash their hands... It is almost a human right that you must be able to wash your hands after using the toilet. It is as straightforward as that. It is a core public health benefit.”¹⁰

⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 102

⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 25

⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 172

⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 175 & 182

¹⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion p182

Oriau agor

12. Dywedodd Graeme Francis, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus Age Cymru wrth y Pwyllgor sut y gallai oriau agor toiledau cyhoeddus hefyd effeithio ar hygyrchedd cyfleusterau. Roedd y tystion yn cydnabod mai fandaliaeth yn aml yw'r rheswm pam nad yw toiledau cyhoeddus ar agor yn y nos, ond bod darparu'r gwasanaeth rhwng 09.00 a 17.00 ar ddyddiau'r wythnos yn atal llawer o bobl, gan gynnwys ymwelwyr dros y penwythnos, rhag defnyddio'r cyfleusterau.¹¹ Nododd Louise Hughes nad ydym yn byw mewn cymdeithas naw tan bump a bod angen i doiledau cyhoeddus fod yn hygyrch 24 awr y dydd.¹²

Cydraddoldeb y ddarpariaeth

13. Clywodd y Pwyllgor sut y gall darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus gael mwy o effaith ar rai grwpiau o bobl, yn enwedig y rheini ag anabledd neu rieni â phlant ifanc.¹³ Tra bod cyfleusterau modern yn darparu gwell mynediad i bobl anabl, teimlai'r tystion fod angen gwneud rhagor o welliannau er mwyn bodloni anghenion pawb.¹⁴ Dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor fod gofalwyr gyda pobl anabl yn aml, ond bod y rhan fwyaf o guddyglau toiledau yn rhy gul i fwy nag un person.¹⁵ Gallai rhagor o broblemau godi pe bai'r gofalwr o ryw gwahanol.

14. Dywedodd Louise Hughes wrth y Pwyllgor fod anghydraddoldeb rhywiol hefyd yn broblem mewn perthynas â'r ddarpariaeth o doiledau ar adegau. Gan nad oes angen cymaint o le ar gyfer wrinalau nag ar gyfer cuddyglau i ferched, roedd hyn yn arwain at lai o gyfleusterau i ferched.¹⁶

15. Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Toiledau Prydain (BTA) yn nodi bod angen mynediad i doiledau cyhoeddus ar

¹¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 58

¹² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 51

¹³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 12

¹⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 20 a 27

¹⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 20

¹⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 23

weithwyr post, gofalwyr, criwiau bysiau, pobl sy'n cludo nwyddau, gyrwyr taccis, gyrwyr lorïau, swyddogion yr heddlu a gweithwyr symudol eraill i gyd wrth iddynt gyflawni'u dyletswyddau, ac mae cau toiledau cyhoeddus yn amharu ar eu gallu i gyflawni'u gwaith yn effeithiol.¹⁷

16. Amlygodd y BTA hefyd y ffaith mai prin y cyfeirir at anghenion y digartref mewn cysylltiad â thoiledau cyhoeddus, ond mae angen mynd i'r afal â'u hanghenion o ran toiledau os yw achosion o faeddu ar strydoedd i ostwng.¹⁸

Darpariaeth amgen

17. O dan y Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus, sy'n weithredol ers mis Ebrill 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol roi hyd at £500 i fusnesau sy'n caniatáu mynediad cyhoeddus am ddim i'w toiledau.

18. Mae tystiolaeth ysgrifenedig Age Cymru'n nodi y gallai hyn fod â rhan bwysig i chwarae, ond mae'n nodi bod nifer sylweddol o awdurdodau lleol nad ydynt yn cymryd rhan yn y cynllun.¹⁹ Cafodd y farn hon ei phwysleisio ymhellach mewn tystiolaeth lafar, gyda'r tystion yn holi a oedd y cynllun yn addas i'r diben. Dywedodd Graeme Francis o Age Cymru wrth y Pwyllgor fod amrywiaeth mawr yn y ffordd y caiff y cynllun ei ddefnyddio ar draws awdurdodau lleol gyda dim busnesu wedi arwyddo i'r cynllun mewn rhai ardaloedd.²⁰

19. Cyfeiriodd Chris Brereton at yr amrywiaeth rhwng awdurdodau lleol o ran codi ymwybyddiaeth o'r cynllun. Nododd Mr Brereton tra bod rhai awdurdodau'n rhestru'r busnesau yn eu hardal sydd wedi arwyddo i'r cynllun ar eu gwefan, nid oedd eraill yn darparu manylion am leoliadau'r cyfleusterau sydd ar gael.²¹ Dywedodd Karen Logan wrth y Pwyllgor fod hysbysebu'r cynllun yn wael yn golygu nad yw

¹⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, HSC(4)-02-12 papur 4

¹⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 138

¹⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, HSC(4)-02-12 papur 2

²⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 46

²¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 172

busnesau'n ymwybodol y gallant arwyddo amdano ac felly nid yw'r cyhoedd yn ymwybodol o pa fusnesau sydd ynghlwm â'r cynllun.²²

20. Amlygodd John Vincent amharodrwydd rhai pobl hŷn i ddefnyddio cyfleusterau mewn adeiladau masnachol heb brynu unrhyw beth. Taerodd y gallai hyn, er enghraifft, arwain at iddynt brynu diod mewn tafarn a allai, yn ei dro achosi iddynt fod ag angen defnyddio'r toiled eto.²³

21. Yn gyffredinol, teimlai'r tystion fod cyflwyno'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus yn gam cadarnhaol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai'r Cynllun, os cai ei ddefnyddio'n iawn, ffurfio rhan bwysig o'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus, er na ddylid ei ystyried fel ateb cyflawn i'r broblem.

22. Awgrymodd Mike Bone wrth y Pwyllgor y byddai gofyniad bod toiledau mewn adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol ar agor i'r cyhoedd eu defnyddio, yn darparu adnodd gwerthfawr a byddai'n caniatáu gwell defnydd o gyfleusterau presennol.²⁴

²² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 144

²³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 48

²⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 105

Effaith ar iechyd a lles cymdeithasol unigolion

23. Dywedodd y dystion wrth y Pwyllgor y byddai ar bob aelod o'r gymuned angen defnyddio toiled cyhoeddus ar ryw adeg, ond bod yr angen yn fwy cyffredin ymhlith rhai grwpiau fel yr henoed, yr anabl, plant a'r rheini sy'n dioddef o gyflyrau ar y bledren neu'r coluddyn. Amlygodd Karen Logan, nyrs glinigol arbenigol mewn anymataliaeth ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan y gyfran uchel o bobl sy'n cael eu heffeithio gan gyflyrau wrinol neu gyflyrau'r coluddyn. Roedd ei gwaith ymchwil yn dangos y byddai 22,000 o bobl o boblogaeth o 600,000 yn yr ardal a wasanaethir gan ei bwrdd iechyd hi, yn dioddef o anymataliaeth y bledren neu'r coluddyn.²⁵

24. Siaradodd Karen Logan hefyd am effaith taro ymlaen ehangach darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus ar y GIG. Dywedodd y gallai pobl fynd yn anweithgar trwy fethu â mynd allan yn eu cymunedau. Gall hyn, yn ei dro, effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd, yn y dyfodol, mae unigolion anweithgar yn debygol o fod yn llai symudol, yn unig, yn sâl ac yn isel eu hysbryd gan arwain at angen posibl am ragor o driniaeth.²⁶

25. Dywedodd Gillian Kemp o'r Rhwydwaith IBS wrth y Pwyllgor:

“Irritable bowel syndrome effects all ages, not just elderly people, and it is about the sense of urgency. If you need a toilet, you just have to go, and if there are no toilets, you just do not go out. It is as simple as that. That brings in the health implications of isolation and mental health problems.”²⁷

Effaith ar iechyd corfforol

26. Mae *Nowhere to Go in Wales*²⁸ yn amlygu'r ffaith bod pobl hŷn yn fwy tebygol o ddiodeff o anymataliaeth neu o fod â phroblemau'n ymwneud ag ataliaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i ddefnyddio'r toiled yn fwy aml ac ar fwy o frys oherwydd gwendid yn y cyhyrau, gan

²⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 125

²⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 93

²⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 85

²⁸ Help the Aged yng Nghymru, [Nowhere to Go in Wales](#), 2009 [fel ar 15 Chwefror 2012]

arwain at fwy o ddibyniaeth ar doiledau cyhoeddus wrth i bobl heneiddio.

27. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gall anawsterau mewn perthynas ag oedran, gan gynnwys cyfyngiad ar symudedd, hefyd ei gwneud yn fwy heriol i fynd i'r toiled. Ynghyd â ffactorau'n ymwneud ag ymataliaeth, nododd y tystion y gall hyn arwain at y straen a'r pryder o fethu â dod o hyd i doiled. Dywedodd Karen Logan wrth y Pwyllgor:

“Holding on to a full bladder or bowel increases the heart rate and the blood pressure, and for very old, ill or vulnerable people this could cause a stroke or a heart attack or have other health implications.”²⁹

28. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mae Age Cymru a Senedd Pobl Hŷn Cymru'n disgrifio rhai camau y mae pobl yn eu cymryd er mwyn osgoi'r angen i ddefnyddio'r toiled pan fyddant oddi cartref. Roedd y rhain yn cynnwys osgoi cymryd meddyginiaeth hanfodol (tabledi dŵr er enghraifft) a all waethygu'r angen i droethi'n aml, a chyfyngu ar faint o hylif y maent yn ei yfed, a all achosi diffyg hylif a phroblemau iechyd cysylltiedig.³⁰

29. Ailadroddodd Graeme Francis o Age Cymru hyn mewn tystiolaeth lafar, gan nodi ei fod yn ymwybodol o achosion lle'r oedd pobl wedi peidio â chymryd eu meddyginiaeth am ddiwrnod neu ddau “er mwyn ymdopi”³¹, os nad oedd ganddynt ddewis ond i adael eu cartref. Ychwanegodd Louise Hughes, y prif ddeisebydd, ei bod wedi cyfarfod pobl a oedd wedi peidio ag yfed neu wedi lleihau faint oeddent yn ei yfed mewn ymdrech i beidio â bod angen mynd i'r toiled. Roedd hyn, mewn rhai achosion, wedi arwain at orfod mynd i'r ysbyty am driniaeth ar gyfer diffyg hylif neu lid y bledren.³²

Effaith ar iechyd meddwl

30. Yn ychwanegol at effaith gorfforol cymryd camau i osgoi'r angen i ddefnyddio'r toiled, clywodd y Pwyllgor hefyd dystiolaeth am yr effeithiau niweidiol y gall hyn ei gael ar iechyd meddwl pobl. Yn arbennig, dywedwyd wrth y Pwyllgor y gallai'r unigrwydd a grëir drwy

²⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 91

³⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, HSC(4)-02-12 papur 2

³¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 17

³² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 18

beidio â gadael y cartref - er mwyn osgoi'r angen i ddod o hyd i doiled - gael effaith sylweddol ar iechyd meddwl unigolion. Dywedodd John Vincent o Senedd Pobl Hŷn Cymru wrth y Pwyllgor fod llawer o bobl yn dewis peidio â gadael eu cartrefi os nad ydynt yn gwybod ble y gallant gael mynediad at doiled, a gall hyn arwain at ynysu cymdeithasol.³³ Ychwanegodd Graeme Francis fod ynysu cymdeithasol pobl hŷn - a achosir yn aml gan yr ofn o fethu cael mynediad digonol at doiledau - yn faes o bryder arbennig i Age Cymru.³⁴

31. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Age Cymru'n nodi y byddai pobl sy'n dioddef o anymataliaeth, neu sydd ag angen defnyddio'r toiled yn fwy aml neu ar fwy o frys, yn fwy tebygol o ddioddef gan bryder ac iselder. Dywedodd Karen Logan wrth y Pwyllgor:

“We know that incontinence does not kill people, but it certainly kills their quality of life. They are already challenged by that and the fact that, when they go out, they do not have access to a public toilet when they need to go.”³⁵

32. Aeth Ms Logan ymlaen i egluro y gallai cael profiad o embaras yn ymwneud ag anymataliaeth mewn man cyhoeddus fod yn ddigon iddynt, gan roi enghraifft o glaf a oedd wedi ceisio cymryd ei bywyd ei hun o ganlyniad i'w hanymataliaeth.³⁶

Effaith ar iechyd yr amgylchedd

33. Clywodd y Pwyllgor sut y gallai darpariaeth annigonnol o doiledau cyhoeddus hefyd fod â goblygiadau o ran iechyd yr amgylchedd, yn enwedig pan fydd diffyg darpariaeth yn arwain at faeddu ar y strydoedd. Siaradodd Dr Sara Hayes am y risg o haint o ganlyniad i faeddu ar strydoedd, yn enwedig mewn ardaloedd lle gall plant fod yn chwarae, a hefyd yr effaith y gallai baeddu rheolaidd ei gael ar les pobl sy'n byw yn yr ardal honno.³⁷ Dywedodd Chris Brereton wrth y Pwyllgor

³³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 15

³⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 17

³⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 87

³⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 87

³⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 167

fod troethi ar y strydoedd yn broblem arbennig yn y nos, pan fydd pobl yn gadael tai trwyddedig ar ôl yfed llawer o alcohol.³⁸

³⁸ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 165

Atebion posibl

34. Yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i'r tystion am eu barn ynghylch sut y gellid gwella'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yng Nghymru. Caiff yr awgrymiadau a wnaed gan y tystion eu hamlinellu isod.

Gwneud y gorau o adnoddau presennol

35. Yn gyffredinol, cymerodd y tystion farn gadarnhaol o'r Cynllun Grant Cyfleusterau Cyhoeddus, ond credent y gellid gwneud mwy i gynyddu nifer yr awdurdodau lleol a oedd yn manteisio ar y cynllun, ac i hysbysebu'r lleoliadau a oedd yn cymryd rhan mewn awdurdodau eraill. Yn sicr mae lle i'r Cynllun wneud cyfraniad mwy yn y dyfodol. Awgrymodd Mike Bone wrth y Pwyllgor y byddai gofyniad bod toiledau mewn adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol ar agor i'r cyhoedd eu defnyddio yn darparu adnodd gwerthfawr a byddai'n caniatáu gwell defnydd o gyfleusterau presennol.³⁹

Codi tâl

36. Yn ei thystiolaeth, defnyddiodd Louise Hughes y bloc toiledau cyhoeddus a adnewyddwyd ym Mhorthmadog fel enghraifft o arfer da. Dywedodd Ms Hughes wrth y Pwyllgor fod angen i ddefnyddwyr roi 20c mewn slot ar y drws yn y cyfleuster newydd er mwyn iddo agor. Mae'r toiled felly'n hygyrch 24 awr y diwrnod.⁴⁰

37. Cytunodd y tystion eraill y byddai tâl bach iawn o 20c yn ateb derbyniol er mwyn sicrhau mynediad i doiled cyhoeddus bob amser, gan fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag amserau agor a amlygwyd yn gynharach yn y crynodeb hwn (gweler paragraff 11). Ychwanegodd Mike Bone o Gymdeithas Toiledau Prydain y byddai tâl o'r fath yn talu am y gost o ddarparu'r toiledau heb effeithio ar gyllid awdurdodau lleol.⁴¹

³⁹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 105

⁴⁰ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 51

⁴¹ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 147

Cynllunio

38. Cododd amryw o dystion y posibilrwydd o ddefnyddio pwerau cynllunio i fynnu darpariaeth o doiledau sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn datblygiadau newydd. Awgrymodd y dystion bod cynllunwyr awdurdodau lleol yn gweithio gyda datblygwyr i sicrhau bod toiledau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio wrth ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer adeiladau newydd a phrosiectau adfywio, ac wrth brydlesu eu hystâd eu hunain.⁴²

Strategaeth ar gyfer Cymru

39. Dywedodd y dystion wrth y Pwyllgor mai mabwysiadu strategaeth ar gyfer Cymru oedd y ffordd orau i sicrhau bod toiledau cyhoeddus yn hygyrch i bawb. Dywedwyd wrth yr Aelodau y dylai strategaeth o'r fath ganfod nifer y toiledau cyhoeddus sydd eu hangen i wasanaethu'r boblogaeth leol, a'u lleoliad. Cytunodd y dystion fod angen canllawiau ar nifer y toiledau sydd eu hangen, yn dibynnu ar nifer y boblogaeth a natur yr ardal a wasanaethir. Buont hefyd yn dadlau mai awdurdodau lleol oedd yn y sefyllfa orau i asesu ym mhle y dylid lleoli cyfleusterau yn eu hardal.⁴³

40. Awgrymodd y dystion wrth y Pwyllgor mai'r man cychwyn wrth ystyried lleoliad toiledau cyhoeddus fyddai cysylltu cyfleusterau â gwasanaethau hanfodol, ar groesffyrdd a chanolfannau siopa ac adloniant.⁴⁴ Dywedodd Mike Bone o Gymdeithas Toiledau Prydain wrth y Pwyllgor ei fod yn credu y dylai strategaeth gynnwys gofyniad ar i awdurdodau lleol ddarparu toiledau cyhoeddus, gan gynnwys adeiladau cyhoeddus yn sicrhau bod eu cyfleusterau ar gael ac i gwmnïau masnachol nodi mewn ceisiadau cynllunio bod toiledau cyhoeddus yn cael eu darparu.⁴⁵

41. Croesawodd y Pwyllgor farn Dr Sara Hayes', Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Dros Dro (Iechyd Cyhoeddus), sef:

⁴² Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 73 a 186

⁴³ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 160

⁴⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 56 a 102

⁴⁵ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion p105

“There is a clear case for, at least, exploring the potential for national level action, but also stimulating local level action.”⁴⁶

Ymglyniad Cymunedol

42. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Cymuned Llanfrynach, yn amlinellu'r profiad o reoli a chynnal a chadw'r toiled cyhoeddus yn y pentref yn dilyn penderfyniad y Cyngor Sir i gau'r cyfleuster.⁴⁷ Yn ôl dystiolaeth y Cyngor Cymuned, cafodd canlyniadau cau'r toiledau cyhoeddus effaith mor niweidiol ar y pentref fel bod grŵp o bobl leol wedi gwirfoddoli i gydweithio i gadw'r cyfleuster ar agor. Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig yn esbonio sut mae cyfraniadau'n talu am gost deunyddiau glanhau a sut mae gwirfoddolwyr yn gweithio ar ffurf rota i lanhau'r toiled, gan gael gwared â'r gost o dalu am lanhawr. Yn ôl y cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd, bu profiad gwirfoddolwyr Llanfrynach yn llwyddiannus iawn ac mae'n dangos sut y gall cymunedau lleol gymryd camau i gadw'u cyfleusterau ar agor.

⁴⁶ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 19 Ionawr 2012, Cofnod y Trafodion para 188

⁴⁷ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Ymateb I'r Ymgynghoriad Rhan5 - Cyngor Cymunedol Llanfrynach*, Rhagfyr 2011 [fel ar 15 Chwefror 2012]

Casgliad

43. Caiff y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei grynhoi yn y ddogfen hon. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, aeth y Pwyllgor ati i brofi'r cynnig bod darpariaeth annigonnol o doiledau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol ar iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, mae'r Pwyllgor yn bendant o'r farn bod y cynnig yn gywir: mae'r **achos iechyd cyhoeddus** dros ddarpariaeth well o doiledau cyhoeddus yn gryf. Daw'r Pwyllgor i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y farn a glywodd - yn glinigol ac yn anghlinigol - o blaid y ddadl y gall diffyg darpariaeth ddigonol o doiledau gael effaith ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn, yn ogystal ag ar iechyd yr amgylchedd ehangach poblogaeth Cymru, gan ddod â goblygiadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

44. Wrth ystyried y mater hwn, derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn meysydd a oedd yn gysylltiedig ond nid yn ymwneud yn uniongyrchol â goblygiadau iechyd cyhoeddus o ddarpariaeth annigonnol o doiledau cyhoeddus. Yn arbennig, clywodd y Pwyllgor farn ar rôl awdurdodau lleol o ran darparu cyfleusterau, yr atebion posibl sydd ar gael i wella'r rhwydwaith yng Nghymru, a'r costau sydd ynghlwm â chynnal y cyfleusterau hyn ar draws Cymru. Er bod y Pwyllgor wedi mynegi barn glir ar bwysigrwydd y rhwydwaith toiledau cyhoeddus o ran sicrhau cynnal a gwella iechyd cyhoeddus yng Nghymru, barn y Pwyllgor yw bod angen gwneud rhagor o waith i ddarparu dadansoddiad cadarn o'r ffordd y dylai'r rhwydwaith toiledau cyhoeddus gael ei strwythuro i gyflawni'r amcanion y bwriadwyd iddo'u cyflawni, ac un o'r rheini yw canlyniadau iechyd cyhoeddus digonol.

45. Barn y Pwyllgor yw y byddai'n well i'r mater o ddatblygu'r rhwydwaith hwn gael ei ystyried ymhellach gan y rheini sydd â mwy o arbenigedd mewn materion yn ymwneud â llywodraeth leol, o gofio rôl ganolog llywodraeth leol o ran darparu toiledau cyhoeddus. Cred y Pwyllgor fod y dystiolaeth nid yn unig yn cefnogi'r **achos iechyd cyhoeddus** dros well darpariaeth o doiledau cyhoeddus yn gryf, ond mae hefyd yn tanlinellu'r achos dros ymchwilio ymhellach i **ddarpariaeth awdurdodau lleol** o doiledau cyhoeddus. Gallai'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ynghyd â'r Gweinidog perthnasol ymgymryd ag ymchwiliad o'r fath, ond eu penderfyniad hwy fyddai gwneud hynny ai peidio.

Atodiad A – Rhestr o ymgynghoreion

- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Age Cymru
- Senedd Pobl Hŷn Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfadran Iechyd Cyhoeddus
- Anabledd Wales
- Mencap Cymru
- Scope Cymru
- Cymdeithas Toiledau Prydain
- Y Rhwydwaith IBS
- Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn
- National Association for Colitis and Crohns Disease
- Y Gymdeithas Cyngor ar Ymataliaeth
- Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan
- Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain
- Sefydliad Joseph Rowntree
- Comisiynydd Plant Cymru
- Plant yng Nghymru
- Un Llais Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Health and Social Care Committee

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Ann Jones AC AM

Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol
Chair, Communities, Equality and Local Government
Committee

6 Mawrth 2012

Annwyl Ann,

Y Bil Drafft ynghylch Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) - Briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

Fel y gwyddoch, cafodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol nodyn briffio
technegol ar y Bil drafft uchod ar 2 Chwefror 2012.

Yn eich llythyr dyddiedig 24 Ionawr, gwnaethoch gais i gael eich hysbysu am
unrhyw faterion sy'n deillio o'r briff hwnnw. Wedi eu nodi isod, mae'r lincs i'r
wybodaeth a ganlyn-

1. Cofnod y Trafodion ar gyfer y cyfarfod, a
2. Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
sy'n darparu gwybodaeth ychwanegol y gwnaeth y Pwyllgor gais
amdani.

Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 2 Chwefror 2012

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s5704/2%20February%202012.html?CT=2#Bill>

Gohebiaeth

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s5995/Paper%2011.pdf>

Caiff copi o'r llythyr hwn ei anfon at Nick Ramsay AC fel Cadeirydd y Pwyllgor
Menter a Busnes.

Yn gywir

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Tudalen 51 Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: HSCCommittee@wales.gov.uk

Mark Drakeford.

Mark Drakeford AC AM
Cadeirydd - Chair